



COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored

12.30 p.m., Dydd Mercher 20 Mai 2020

Cynhaliwyd mewn amryw o leoliadau, trwy feddalwedd Microsoft Teams

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 12 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn Bresennol: John Graystone (yn y Gadair), Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Cathy Clark, Gareth Cork, Caroline Davies, Julie Cook, Salamatu Fada, Jenni Jones-Annetts, Suzanne Samuel, Guy Wallace Smith, Dafydd Rhys, Daryl Leeworthy, Stephen Nicholls, Tim Palazon. Roedd gan y cyfarfod gworwm drwy gydol yr amser.

Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Rhydian Williams (Rheolwr Datblygu Digidol), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni /Clerc); Rachel Burton (Rheolwr, Gwaith Ieuentid, Cymuned a Gwaith Chwarae) ar gyfer cofnodion 5 a 6 yn unig.

Hefyd: Rowland Jones (Syrfêwr Siartredig) ar gyfer cofnod 4; Nia Parry (Llywydd Anrhydeddus) ar gyfer cofnodion 5 a 6; Keith Towler (Cadeirydd, Bwrdd Gwaith Ieuentid Interim Cymru) ar gyfer cofnod 6.

Ymddiheuriadau: Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Chris Franks, Malgorzata Zedler.

2. Croeso, ynghyd â Materion Rhagarweiniol Technolegol a Llywodraethiant

Croesawyd pawb o'u manau cysylltu gwahanol i'r cyfarfod rhithwir cyntaf hwn o'r Cyngor. Roedd taflen protocol wedi'i chylchredeg yn cynnwys canllawiau ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio'r dechnoleg Microsoft Teams, a darparodd Rhydian Williams gyngor pellach ar dechnegau galwadau cynadledda da fel 'Trefnydd' y cyfarfod.

Fe wnaeth Stephen Thomas ddiweddarau'r aelodau ynghylch newidiadau yng nghyfansoddiad y Cyngor. Roedd John Graystone a Stephen Nicholls wedi cael eu cyf weld ar ddiwedd mis Mawrth ac o ganlyniad penodwyd y ddau i rolau llywodraethwyr am gyfnodau o 3 blynedd. Roedd Malgorzata Zedler yn llywodraethwr dysgwyr, ar ôl ymgymryd â swydd flaenorol Stephen Nicholls ar yr un adeg honno. Gydag 17 o aelodau presennol ar y Cyngor, roedd tri lle gwag ar ôl, sef:

- y seddi etholedig ar gyfer rhanbarthau democratig y Gogledd Orllewin a'r Gogledd Ddwyrain; ni chafwyd unrhyw enwebiadau ar eu cyfer pan hysbysebwyd y swyddi ym mis Ebrill. Roedd ymgynghori'n mynd rhagddo gyda chydweithwyr ynglŷn â sut i ennyn diddordeb gan ymgeiswyr posibl; ac
- un rôl benodedig o blith ein Sefydliadau Cyswllt a Phartner, i'w llenwi gyda'r bwriad o gau bylchau mewn sgiliau ac arbenigedd.

Roedd gohebiaeth yn gofyn am enwebiadau ar gyfer rolau Cadeirydd ac Is-gadeirydd(ion) wedi'i hanfon at aelodau'r Cyngor yn ddiweddar. Roedd y rheiny a dderbyniwyd yn sgil hynny ar gyfer John Graystone (fel Cadeirydd), a Sonia Reynolds a Toni Schiavone (fel Is-gadeiryddion). Cawsant eu cadarnhau yn y rolau priodol hynny felly am flwyddyn galendr arall. Ychwanegodd Daryl Leeworthy ei fod yn teimlo ei bod yn

bwysig i gael parhad yn ystod y cyfnod o newid neilltuol hwn trwy adael stiwardiaeth y Sefydliad mewn dwylo profiadol.

3. Cofnodion y Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 12 Mawrth 2020 a materion yn codi

Cafodd cofnodion trafodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd ym Mangor (gyda chyswilt fideo-gynadledda yng Nghaerdydd) eu cymeradwyo fel cofnodion cywir.

Cafodd tri mater yn y cofnodion eu trafod ymhellach. O ran y gweithgor gorchwyl a gorffen ar ddyfodol canghennau (cofnod 4), er y derbyniwyd y bu blaenoriaethau eraill amlwg dros yr wythnosau blaenorol, nid oedd aelodau'r Cyngor yn teimlo y gellid gosod y mater hwn o'r neilltu hyd nes bod materion 'yn mynd yn ôl i'r arfer': roedd hynny'n debygol o fod gryn amser i ffwrdd. Roedd yn hanfodol yn lle hynny i ddefnyddio'r math o dechnoleg a ddefnyddir i sicrhau bod y cyfarfod hwn o'r Cyngor yn mynd rhagddo er mwyn ategu gwaith canghennau presennol, ac yn wir i weld p'un a fyddai canghennau digidol, newydd yn gallu datblygu. Roedd materion aelodaeth yn fwy cyffredinol yn ymwneud â'r mater - roedd strategaeth Aelodaeth wrthi'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd. **Dywedwyd y gallai'r Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu fod â rhan i'w chwarae yn hyn hefyd, ac na ddylai'r mater o lywio dyfodol canghennau aros yn llonydd.**

O ran cofnod 5, roedd y cynnig cyfyngedig i ailstrwythuro staff a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor Adnoddau i fod i'w ddychwelyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn o'r Cyngor. Fodd bynnag, roedd effaith Covid-19 ar y sefydliad wedi golygu bod blaenoriaethau wedi newid: ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredol eto, ac yn wir roedd cynigion newydd ar gyfer y strwythur staffio. Felly, **byddai cynigion diwygiedig yn cael eu rhoi gerbron cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ym mis Gorffennaf 2020.**

Yn olaf, o ran cofnod 6, roedd yr arolwg amrywiaeth ar gyfer aelodau'r Cyngor wedi'i ohirio oherwydd y doreth o gamau gweithredu pwysig a brys eraill dros y ddeufis diwethaf. O ystyried y byddai'r arolwg ar yr un ffurf â'r arolwg i gyflogeion o ran ei gwblhau, **cynigiwyd a chytunwyd y byddai'n cael ei weithredu yn gyfochrog ag ef, cyn diwedd mis Gorffennaf 2020,** yn hytrach nag o fewn ei amserlen wreiddiol.

4. Cynnig daliadau tir Harlech

Ymunodd Rowland Jones o RJ Chartered Surveyors â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda yn unig. Cyfeiriodd aelodau at y papur cefndir a oedd yn rhoi diweddariadau ar yr eiddo, a chyn eiddo, a oedd yn berchen gan y sefydliad yn Harlech, ac roedd yn canolbwyntio ar y daliadau tir yr oedd yn berchen arnynt yno. Yn 2016 roedd dau blot wedi'u cyflwyno i'w hystyried i'w cynnwys fel safleoedd ymgeisiol ar gyfer datblygiad tai yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Roedd yr ardal uwchben y maes parcio, rhwng Ffordd Newydd a Ffordd Isaf, wedi'u gwrthod (ar ôl eu cyflwyno mwy fel marciwr i'r dyfodol). Roedd hyd at 8 erw ar Gaeau Astor i'r gogledd o'r dref wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod, fodd bynnag, a nawr roedd diddordeb wedi'i fynegi mewn plot gyda 24 o unedau preswyl arfaethedig (33% ohonynt i fod yn 'fforddiadwy') o fewn y safle 8 erw hwnnw gan gymdeithas dai Grŵp Cynefin. Roedd angen cysylltu'r mater hwnnw â chytundeb pori diwygiedig ar Gaeau Astor gyda'r ffermwr a oedd yn meddiannu'r tir yno.

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo pedwar argymhelliad a ddeilliodd o'r papur, fel a ganlyn:

- **Gyda Grŵp Cynefin, mynd ar drywydd datblygu posibl rhan o dir Caeau Astor a amlinellwyd yn y CDLI, er mwyn hyrwyddo allbwn i'r ddau barti i'r eithaf, gyda'r Cyngor i dderbyn adroddiad ar ddeiliant trafodaethau cychwynnol cyn ystyried p'un ai i gymeradwyo cytundeb opsiwn ffurfiol neu beidio i ddwyn y cynnig yn ei flaen;**

- **Rhoi cytundeb tenantiaeth amaethyddol newydd ar gyfer yr ardal tir pori o Gaeau Astor sydd ar ôl wedyn i ddeiliad presennol y tir;**
- **Cadw'r plot o dir y tu ôl (ac uwchlaw'r) maes parcio, rhwng Ffordd Newydd a Ffordd Isaf, tra'n disgwyl cyfle i wneud cais pellach i'w gynnwys yn y CDLI yn y dyfodol;**
- **Derbyn cynigion gan/drwy'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer amseru gwaredu/cymynroddi'r rhydd-daliad ym Mhen y Graig i Gyngor Cymuned Harlech.**

5. Nia Parry, Llywydd Anrhydeddus

Wrth iddi ymuno â'r cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd pa mor falch oedd y Cyngor fod Nia Parry wedi derbyn y gwahoddiad i ddod yn Llywydd y Sefydliad, rôl a gadarnhawyd trwy bleidlais yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar ddiwedd mis Mawrth. Fe wnaeth hithau yn ei thro ddarparu cefndir ar ei gyrfa a'i gwaith presennol mewn addysg ac yn y cyfryngau, sut yr oedd wedi trafod AOC|ALW a'i rôl hi ynndo gyda rhai aelodau staff dros y dyddiau diwethaf, a'r modd yr oedd yn edrych ymlaen at ymgymryd â dyletswyddau a oedd yn cynorthwyo'r sefydliad. Cadarnhaodd aelodau eraill y Cyngor eu balchder gyda'r penodiad, ac roeddent yn rhagweld y gallai Nia Parry greu cysylltau newydd a chysylltiadau defnyddiol i'r Sefydliad. Roedd Cylch Gwaith y Llywydd, a gynhwyswyd yn y papurau, yn amlinellu manylion y rôl: teimlwyd bod yr heriau presennol yn sgil Covid-19 yn golygu bod angen cymorth o'r fath yn fwy nag erioed. Cadarnhaodd Nia Parry ei pharodrwydd i deithio ledled Cymru pan fyddai cyfleoedd o'r fath ar gael eto: roedd hyn yn cynnwys gwneud cysylltiadau gyda'n canghennau.

6. Cyflwyniad a thrafodaeth am ein hymgysylltiad â hyfforddiant Gwaith Ieuentid

Ymunodd Keith Towler â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon. Eglurodd ddechreuad y Bwrdd Gwaith Ieuentid Interim, yn dilyn adolygiad o'r maes gan bwyllgor o'r Cynulliad Cenedlaethol (Senedd erbyn hyn) a nododd ddiffyg arweinyddiaeth strategol mewn materion ieuentid. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Bwrdd i bennu dyfodol cynaliadwy ar gyfer Gwaith Ieuentid: roedd y strategaeth ddiwygiedig yr oedd y Bwrdd wedi'i llunio yn cynnwys 'ymestyn hawl' fel ei nodwedd allweddol, yn hytrach na'r ffocysau culach blaenorol. Roedd y Bwrdd, yr oedd ei gyfnod mewn grym wedi ymestyn ymhellach na diwedd 2020 oherwydd y pandemig, yn cysylltu â chyrff pwysig eraill yn y sectorau iechyd, addysg ac anabledd. Roedd ei gysylltiad ag AOC|ALW wedi bod yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig hyd yma. Cyfeiriodd at rai o'r materion a oedd yn cael ystyriaeth yn y sefyllfa bresennol - pam nad oedd gwaith ieuentid yn ymhlygu statws 'gweithwyr allweddol' yn awtomatig, ac adleoli gweithwyr ieuentid neu eu rhoi ar ffyrlo yn ystod y pandemig; ac at faterion hirdymor yn gysylltiedig ag ieuentid, fel diogelu, digartrefedd, diweithdra, tlodi digidol, lles ac iechyd meddwl, a bregusrwydd.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod ymateb 'un sector' yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad terfynol y Bwrdd, yn cwmpasu rolau'r sector a gynhelir a'r trydydd sector mewn Gwaith Ieuentid. Roedd gwefan Wales TUC Cymru yn cynnwys adran chwythu'r chwiban a oedd wedi nodi mwy o bwyslais yn ddiweddar ar adrodd am ddiffyg cyfleoedd am swyddi, pryderon ynghylch dychwelyd i'r ysgol a'r coleg, a diffyg rhagolygon i'r dyfodol, gan bobl iau. Adlewyrchwyd hyn ym mhrofiad Keith Towler o adweithiau i Covid-19, gan newid i gydnabod bod angen mwy o gymorth ar bobl ifanc 18-25 oed, nid y rhai 12-17 oed yn unig. Cydnabuwyd pwysigrwydd rolau mentora i bobl ifanc hefyd.

Eglurodd Rachel Burton beth oedd AOC|ALW yn gwneud yn y maes hwn fel darparwr arweiniol cymwysterau ar gyfer gweithwyr Datblygu Ieuentid, gyda bron i 1,000 o bobl wedi cael hyfforddiant dros y tair blynedd flaenorol. Roedd 5% o'r rheiny wedi'u haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Soniodd am y partneriaid allweddol yr oeddem yn gweithio â nhw yn y maes arbenigol hwn, a olygai ein bod ni mewn sefyllfa dda fel Sefydliad i lywio a dylanwadu ar addysg yn y sector hwn. Roedd adolygiad gan Estyn o

addysg gwaith ieuenctid i'w gyhoeddi ym mis Hydref. Yn sgil y pandemig, roedd ein gwaith hyfforddi wedi dod i ben, ond erbyn diwedd Tymor 3 byddai cwrs diogelu ar-lein ar gael yn benodol i'r rheiny yn y maes Gwaith Ieuenctid.

Awgrymodd Keith Towler y gallai fod yn fuddiol i'r Sefydliad sianelu cwestiwn ynglŷn â statws gweithwyr ieuenctid fel gweithwyr allweddol drwy Lynne Neagle, AS. Roedd yn edrych ymlaen at weithio gydag AOC|ALW er mwyn rhoi pwysau ar y llywodraeth yng Nghymru a ffurfir ar ôl etholiadau 2021, i weithredu argymhellion o adroddiad terfynol y Bwrdd Interim.

7. Adroddiad y Prif Weithredwr, Mai 2020

Roedd Kathryn Robson yn dymuno dechrau trwy gydnabod gwaith eithriadol yr holl staff dros yr ychydig wythnosau blaenorol wrth symud o weithio wyneb yn wyneb i weithio ar-lein. Gofynnodd y Cadeirydd yn ei dro am i werthfawrogiad y Cyngor o ymdrechion y cyflogeion gael ei gofnodi. Roedd y rhaniad digidol wedi ymddangos yn glir iawn ymhlith ein dysgwyr, a thra bod cyrsiau SSIE (ESOL) wedi cymryd camau mawr ymlaen o ran darpariaeth ar-lein, roedd rhai cyrsiau eraill yn arafach o ran eu trawsnewid. Dangosodd yr atodiad Project Tracker ddau gais llwyddiannus am grantiau hyd yma, ond byddai'r gostyngiad disgwylidig o ran cyflwyno'r cwricwlwm yn golygu ergyd ariannol anochel hefyd. Er y gallai llyfrgelloedd agor cyn bo hir - gydag asesiadau risg trwyadl ohonynt yn cael eu cynnal ymlaen llaw gan AOC|ALW - roedd lleoliadau cymunedol eraill yr oeddem yn eu defnyddio fel lleoliadau yn debygol o aros ar gau hyd y gellir rhagweld. Roedd gwybodaeth gan Salamatu Fada am ffynonellau cyllid cymorth penodol ar gyfer dysgwyr unigol (yn hytrach nag ar gyfer sefydliadau) a allai gynorthwyo o ran pontio'r rhaniad digidol i rai: addawodd Kathryn Robson i gysylltu â hi ynglŷn â hynny.

Trodd y sylw wedyn at yr adroddiad Datblygiad Digidol atodedig, a gyflwynwyd gan Rhydian Williams drwy ganmol y broses gyflym o uwchsgilio ein staff. Roedd y symudiadau a wnaed yn golygu newid sefydliadol mawr, gyda chorff addysgol gwirioneddol 3 dimensiwn yn deillio ohono. Roedd y sefyllfa bresennol yn dangos enghreifftiau o arfer da (er mai ansawdd yn hytrach na niferoedd oedd wedi'i sicrhau hyd yma) ac roedd gwledigaeth hefyd o ran ble'r oedd angen buddsoddiad ariannol a sylw yn y dyfodol.

Gofynnodd Kathryn Robson a oedd unrhyw nerfusrwydd ymhlith aelodau'r Cyngor ynglŷn â graddfa'r cynnydd yn ein cynigion digidol. Teimlai Julie Cook i'r gwrthwyneb, oherwydd yn ei barn hi roedd y Sefydliad wedi ymateb yn dda ac yn briodol i gyflwyno dull dysgu cyfunol addas, ac nad oedd yn angenrheidiol mynd ar drywydd y llwybr cwbl rithwir i'w eithafion. Teimlai Daryl Leeworthy ein bod yn cael ein gorfodi i weithredu beth bynnag, gyda sefydliadau eraill mewn addysg uwch ac addysg bellach yn arwain y ffordd. Dylai AOC|ALW dderbyn y byddai cyflwyno digidol yn llawer pwysicach yn gyffredinol mewn addysg yn y dyfodol, ac y byddai'n rhaid i ni barhau i adeiladu ar ein harbenigedd a'n hesmwythdra gydag ef. Roedd Tim Palazon a Salamatu Fada yn pryderu ynglŷn â'r lefel allgau a oedd yn debygol o ganlyniad i'r newid hwn - i aelodau'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac eraill nad oeddent yn ddigidol llythrennog. Yn hynny o beth, byddai'n fuddiol gweld mwy o ddadansoddi ystadegol o ran pwy yr oedd ein darpariaeth ddiwygiedig yn eu cyrraedd mewn gwirionedd, a phwy nad oedd yn eu cyrraedd. Hefyd, roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng darparu e-ddysgu wedi'i hwyluso gyda chymorth tiwtor, a dysgu hunangyfeiriedig llwyr, gyda dysgwr yn cael mynediad ar-lein iddo'n gyfan gwbl heb addysgwr canolog. Ni ddylid cefni'n llwyr ar gryfderau traddodiadol ein gwaith, o ran ei natur gymdeithasol: fel arall roedd yn debygol y byddai cynnydd o ran diffyg ymgysylltu/cwblhau cyrsiau yn dilyn. Dywedodd Rhydian Williams ei fod yn ymwybodol fod c20% o'r boblogaeth - ac felly, cyfran uwch na hynny o'n dysgwyr posibl, efallai - wedi'u hallgau'n ddigidol ac y dylai fod gennym rôl i helpu pobl i drosglwyddo i oes oedd yn mynnu sgiliau digidol uwch, yn staff ac yn ddisgwyr.

Ar gyfer 2020-21 byddai canllawiau i'r sector cyfan gan Lywodraeth Cymru; roedd yn debygol y byddai cyrsiau Tymor 1 yn dechrau ar-lein, ac yn ddichonadwy byddai llawer o'r flwyddyn academaidd yn parhau ar-lein oherwydd ystyriaethau diogelwch. Roedd rhai darpariaethau staffio ac ansawdd eisoes yn cael eu gwneud i adlewyrchu hyn, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd gyda dyddiadau gorffen ar gyfer cyrsiau 2019-20, yn enwedig rhai galwedigaethol, ac roedd ymwybyddiaeth o bwysau penodol o ran adnoddau a phersonél.

Casgliad y Cyngor oedd cymeradwyo i fwrw ymlaen fel yr amlinellwyd yn y papur Datblygiad Digidol, gyda chyfle i drafod lle'r oedd materion wedi cyrraedd yng nghyfarfod y Cyngor ymhen deufis. Roedd yn debygol y byddai meintiau dosbarthiadau llai drwy fod â mwy o ddysgu ar-lein yn golygu costau uned uwch, er bod arbedion i'w gwneud mewn manau eraill: nid oedd yr union oblygiadau ariannol yn glir eto.

Ar yr Adroddiad atodedig ar y Cwricwlwm, nodwyd roedd y Sefydliad yn cynorthwyo rhai partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned i ailddosbarthu grant Llywodraeth Cymru, ble'r oedd rhai wedi cael cynnydd a rhai eraill wedi cael gostyngiad. Roedd hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, gan fod AOC|ALW yn codi ei broffil drwy wneud hynny.

8. Y Gofrestr Risg ar gyfer mis Mai 2020

Cynhwyswyd tair risg newydd yn y Gofrestr i adlewyrchu Covid-19 o onglau gwahanol – colli incwm (risg 1.2.3), dysgu ar-lein a newidiadau o ran cymorth (2.1.3) ac iechyd staff a dysgwyr (5.1.3). Credwyd bod y risg net ariannol yn 1.2.3 - a fesurwyd fel '12: Anymunol' - heb gael digon o bwyslais, o ystyried yr ansicrwydd oedd yn parhau ynglŷn â chyfeiriad hirdymor y pandemig. Nodwyd dwy risg arall yr oedd eu lefelau difrifoldeb wedi lleihau ers y fersiwn flaenorol o'r Gofrestr, heb sylwadau. O ran risg 1.1.2, fodd bynnag, cafwyd trafodaeth am y cyfeiriad parhaus at gynnydd o 25% mewn cyflawniad addysgol dros gyfnod o 3 blynedd: cydnabuwyd bod hwn bellach yn gynnydd uchelgeisiol y cyfeirir ato'n fewnol, ac mai'r cynnydd swyddogol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw oedd 16% mewn gwirionedd.

9. Cofnodion cyfarfodydd mwyaf diweddar y Pwyllgorau a chyfarfodydd rhithwir, a materion yn codi ohonynt

Nododd y Cyngor gofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 27 Chwefror 2020, cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 5 Mawrth 2020, a chyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 9 Mawrth 2020.

O ran y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol rhithwir a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, cylchredwyd nodyn ffurfiol o ddeilliant y penderfyniadau oedd o'i flaen. Cofnodwyd diolch i Jonathan Goddard am alluogi i'r digwyddiad fynd rhagddo drwy system gyfathrebu a phleidleisio ar-lein yn gyfan gwbl. Roedd gweithgarwch dilynol o ran penodiad y Llywydd (Nia Parry), llofnodi a ffeilio'r cyfrifon blyneddol, a gweithredu'r cyfansoddiad diwygiedig, eisoes wedi'i gyflawni. Byddai'r tri chynig polisi a basiwyd yn cael eu hychwanegu at y rheiny o Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2019 yn Wrecsam o ran mynd ar eu trywydd, a byddai adroddiad yn cael ei roi ar gynnydd pob un ohonynt yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2021.

10. Materion Ariannol

a) Casgliadau diwygiedig o ran Defnyddio cronfeydd wrth gefn a gwargedau'r Sefydliad: roedd cyfarfodydd y Pwyllgor Adnoddau a'r Cyngor ym mis Mawrth wedi gwneud penderfyniadau gwario arwyddocaol ar ddefnyddio cronfeydd gwaged rhagolygol o 2019/20, ac o gronfeydd arian parod y

Sefydliad. Fodd bynnag, roedd effeithiau Covid-19 wedi bod mor sylweddol fel bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn dymuno argymhell bod y Cyngor yn ailystyried y penderfyniadau hynny yn rhannol.

Cafodd yr argymhellion hynny eu cymeradwyo, fel a ganlyn: dylai'r ddwy eitem yn ymwneud â defnyddio'r gwarged 2019/20 a ragamcanwyd yn flaenorol fynd rhagddynt fel y cytunwyd: ymchwil ar effaith economaidd/gymdeithasol addysg oedolion (£20,000); a chreu, neu ehangu, cronfa ysgoloriaeth a oedd yn cyfeirio at Goleg Harlech (£10,000). Fodd bynnag, dylai'r ddwy eitem yn ymwneud â defnyddio cronfeydd wrth gefn y Sefydliad, sef i dalu i ffwrdd rhan o ddiffyg Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y Sefydliad (£500,000), ac i gyfrannu at gyflogi unigolyn i gychwyn ar y gwaith o sefydlu llyfrgell Tudor Bowen Jones (£45,000), gael eu rhoi o'r neilltu am y tro oherwydd yr ansicrwydd a grëwyd gan Covid-19 a'r flaenoriaeth bresennol ddiwygiedig o gael gymaint o gronfeydd arian parod anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio, yn hyblyg, ag y bo modd. Cydnabuwyd na ellid osgoi'r ymrwymiad recriwtio olaf am gyfnod amhenodol a bod angen ei hadolygu, yng ngolau datblygiadau staffio eraill, yn y dyfodol cymharol agos;

b) Adroddiad Ariannol a Chyfrifon Rheoli hyd at 30 Ebrill 2020: Cadarnhaodd Mark Baines na fyddai unrhyw adfachu ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a bod rhai arbedion costau yn codi o logi ystafelloedd a threuliau teithio. Fodd bynnag, byddai gorwariant ar gostau tiwtoriaid, am fod ymrwymiad wedi'i wneud i diwtoriaid i'w talu am yr holl gyrsiau a drefnwyd yn barod yn ystod Tymor 3, yn hytrach na'r sefyllfa arferol o dorri'n ôl ar gyrsiau wrth i'n cyfansymiau cyflwyno gyrraedd eu targedau; ac ni fyddai symiau sylweddol o incwm ffioedd cyrsiau yn cael eu derbyn ychwaith yn sgil cansladau. Yr effaith gyffredinol oedd bod diffyg amcangyfrifedig o £177,000 ar gyfer 2019/20 erbyn hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag effaith digidoleiddio dysgu'n gynyddol ar lefelau staffio, dywedwyd bod datblygiadau digidol hyd yma yn ymestyniad, uwchlaw ymrwymadau cyflwyno wyneb yn wyneb, ac felly nid oedd unrhyw effeithiau ar niferoedd personél ar hyn o bryd. Fodd bynnag, pe bai posibiladau addysgu wyneb yn wyneb yn lleihau'n barhaol, yna yn ddiâu gallai fod goblygiadau i diwtoriaid, ac i staff swyddfeydd o bosibl. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei pharatoi oedd ein cyllideb 2020/21 ac roedd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru y byddai incwm oddi wrthi yn union fel y symiau ar gyfer y flwyddyn ariannol honno yr oedd wedi ymrwymo iddynt yn flaenorol.

11. Hunanasesiad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Roedd diffyg cyfleusterau cyfieithu ar y pryd dros Microsoft Teams yn un anfantais a fyddai'n cael ei dadansoddi ymhellach: roedd llwyfannau fideo-gynadleda gwahanol yn galluogi i hynny ddigwydd. Ar wahân i hynny, roedd aelodau o'r farn fod y cyfarfod wedi gweithio'n dda, heblaw am fethu gweld y cyfleuster Chat Box ar y sgrin ar gyfer rhai aelodau (gan gynnwys, yn fwyaf trawiadol, y Cadeirydd), ac ni ragwelwyd hynny: byddai ei weithredu'n llawn wedi hwyluso materion ymhellach. Un wers berthnasol o ran defnyddio technoleg o'r fath - ar gyfer addysgu a'n dysgwyr, lawn gymaint ag ar gyfer cyfarfodydd busnes - oedd lleiaf y sgrin (e.e. ffôn clyfar, iPad) y lleiaf boddhaol y profiad a llai effeithiol y sianel gyfathrebu.

12. Dyddiad y cyfarfod o'r Cyngor ar ôl ar gyfer 2019-20:

- Dydd Iau 23 Gorffennaf: yn ddamcaniaethol ym Mangor / Caerdydd, ond yn ymarferol cyfarfod rhithwir oedd yn debygol unwaith eto

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Gweithred y cytunwyd arni	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 3	Materion yn codi o gofnodion cyfarfod y Cyngor ar 12 Mawrth 2020	Ar fater y gweithgor gorchwyl a gorffen ar ddyfodol canghennau, dywedwyd y gallai'r Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu fod â rhan i'w chwarae yn hyn hefyd, ac na ddylai'r mater o lywio dyfodol canghennau aros yn llonydd.	KR / CH / MB	Gorffennaf 2020
		Byddai cynigion diwygiedig ar gyfer ailstrwythuro staff yn cael eu rhoi gerbron cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ym mis Gorffennaf 2020.	CH / KR / MB	Gorffennaf 2020
		Byddai arolwg amrywiaeth aelodau'r Cyngor yn cael ei weithredu, yn gyfochrog ag arolwg y staff, cyn diwedd mis Gorffennaf 2020.	CH	Gorffennaf 2020
Cofnod 4	Cynnig daliadau tir Harlech	<p>Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo pedwar argymhelliad a ddeilliodd o'r papur, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gyda Grŵp Cynefin, mynd ar drywydd datblygu posibl rhan o dir Caeau Astor a amlinellwyd yn y CDLI, er mwyn hyrwyddo allbwn i'r ddau barti i'r eithaf, gyda'r Cyngor i dderbyn adroddiad ar ddeiliant trafodaethau cychwynnol cyn ystyried p'un ai i gymeradwyo cytundeb opsiwn ffurfiol neu beidio i ddwyn y cynnig yn ei flaen; - Rhoi cytundeb tenantiaeth amaethyddol newydd ar gyfer yr ardal tir pori o Gaeau Astor sydd ar ôl wedyn i ddeiliad presennol y tir; - Cadw'r plot o dir y tu ôl (ac uwchlaw'r) maes parcio, rhwng Ffordd Newydd a Ffordd Isaf, tra'n disgwyl cyfle i wneud cais pellach i'w gynnwys yn y CDLI yn y dyfodol; - Derbyn cynigion gan/drwy'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer amseru gwaredu/cymynroddi'r rhydd-ddaliad ym Mhen y Graig i Gyngor Cymuned Harlech. 	KR / CH / Rowland Jones	Gorffennaf 2020
Cofnod 10	Materion Ariannol	Cafodd yr argymhellion eu cymeradwyo, fel a ganlyn: dylai'r ddwy eitem yn ymwneud â defnyddio'r gwarged 2019/20 a ragamcanwyd yn flaenorol fynd rhagddynt fel y cytunwyd: ymchwil ar effaith economaidd/gymdeithasol addysg oedolion (£20,000); a chreu, neu ehangu, cronfa ysgoloriaeth a oedd yn cyfeirio at Goleg Harlech (£10,000). Fodd bynnag, dylai'r ddwy eitem yn ymwneud â defnyddio cronfeydd wrth gefn y Sefydliad, sef i dalu i ffwrdd rhan o ddiffyg Cynllun	KR / MB / CH	Gorffennaf 2020

	<p>Pensiwn Llywodraeth Leol y Sefydliad (£500,000), ac i gyfrannu at gyflogi unigolyn i gychwyn ar y gwaith o sefydlu llyfrgell Tudor Bowen Jones (£45,000), gael eu rhoi o'r neilltu am y tro oherwydd yr ansicrwydd a grëwyd gan Covid-19 a'r flaenoriaeth bresennol ddiwygiedig o gael gymaint o gronfeydd arian parod anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio, yn hyblyg, ag y bo modd. Cydnabuwyd na ellid osgoi'r ymrwymiad recriwtio olaf am gyfnod amhenodol a bod angen ei hadolygu, yng ngolau datblygiadau staffio eraill, yn y dyfodol cymharol agos.</p>	
--	---	--